

Pwyllgor Adolygu Gweithredol

27 Medi 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd SL Hancock, Cynghorydd R Jordan,
Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd M Wiggins,
Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

Hefyd yn bresennol: Tegryn Jones (Prif Weithredwr), James Parkin
(Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Sara Morris (Cyfarwyddwr
Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Graham Peake
(Arweinydd Tim Darganfod), Caroline Llewellyn (Rheolwr
Gwasanaethau Democrataidd), Mair Thomas (Swyddog Perfformiad
a Chydymffurfiaeth), Libby Taylor (Pennaeth Ymgysylltu a
Chynhwysiant), Rebecca Evans (Swyddog Datblygu Gwirfoddoli) a
Bryony Rees (Cydllynydd Ysgolion Awyr Agored).

[Ymunodd y Cynghorydd P Morgan â'r cyfarfod adeg ystyried y cyflwyniad ar
Ysgolion Awyr Agored.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 12.30pm)

1. Ethol Cadeirydd

Dywedwyd mai dim ond un enwebiad a dderbyniwyd ar gyfer y swydd
Cadeirydd, sef Dr R Plummer.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd C
Williams, **PENDERFYNWYD** ethol Dr R Plummer yn Gadeirydd am y
flwyddyn sydd i ddod.

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd C Williams,
PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd R Jordan yn Ddirprwy Gadeirydd
am y flwyddyn sydd i ddod.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs Julie James.
Roedd y Cynghorydd P Morgan wedi rhoi gwybod y byddai'n hwyr yn
cyrraedd y cyfarfod.

4. Datgan Buddiannau

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth
Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife. Fodd bynnag arhosodd yn y
cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau. Datganodd y
Cynghorydd M Wiggins bod ganddi fuddiant yn eitem 7, Ysgolion Awyr
Agored Sir Benfro.



5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Wiggins, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023.

6. Log Gweithredu

Roedd y Cadeirydd wedi cydnabod y camau gweithredu a gwblhawyd, a diolchodd i'r Swyddogion a gymerodd ran.

Nodwyd.

7. Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro (PODS)

Croesawodd y Cadeirydd Graham Peake, Arweinydd Tim Darganfod, a Bryony Rees, y Cydlynnydd Ysgolion Awyr Agored, a gyflwynodd adroddiad oedd yn cynnwys adolygiad o waith y Bartneriaeth PODS a'r modd yr oedd y gweithgareddau ar hyn o bryd a'r gweithgareddau sydd yn yr arfaeth yn cael eu datblygu mewn ymateb i heriau'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Cyflwynodd y Swyddogion amrywiaeth o wybodaeth i'r Aelodau oedd yn ymwneud â'r cynllun gan gynnwys gwybodaeth gefndir, crynodeb o'r gweithgareddau ar hyn o bryd, y llwyddiannau, yr heriau, y cyfleoedd, a'r uchelgeisiau i'r dyfodol.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am yr hyn a gyflawnwyd a'r model rhagorol yr oeddent wedi'i ddatblygu oedd â'r potensial o ysbrydoli llawer mwy o lwyddiannau. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y lefel uchel o gydweithio â sefydliadau eraill, a dywedodd y gallai hyn gael dylanwad cadarnhaol ar y posibilrwydd o gael cyllid yn y dyfodol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cyflwyniad gael ei ddisbarthu i'r Aelodau a nodwyd hyn.

Dywedodd un Aelod, oedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu Cyngor Sir Penfro (CSP), nad oedd lefel y gwaith a wneir gan Swyddogion yr Awdurdod wedi'i bortreadu'n llawn mewn adroddiad a gyflwynwyd i Bwyllgor y Cyngor Sir. Mynegodd y Prif Weithredwr bryder ynghylch yr adroddiad gan nad oedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr Awdurdod yn allweddol i gyflawni gwaith PODS ac na dderbyniwyd unrhyw gymorth gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Cynigiodd Aelod bod y Swyddogion yn rhoi cyflwyniad PODS gerbron Seminar i'r Aelodau yn y dyfodol yn CSP, ac roedd pawb yn cytuno.

Dywedwyd bod PODS wedi derbyn cyllid allanol o amrywiaeth o ffynonellau yn y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw gymorth gan yr Awdurdod Lleol ers sefydlu'r bartneriaeth yn 2010. Dywedodd Aelod efallai y bydd angen i Swyddogion fynd ati i chwilio am ffrydiau newydd o ariannu yn y dyfodol megis codi tâl am yr



hyfforddiant a ddarperir i athrawon ac i ysgolion, a mynegodd bryder ynghylch hyn gan fod cyllidebau ysgolion yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill i godi tâl am yr hyfforddiant. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ynghylch y trefniadau ariannu ar hyn o bryd, a chadarnhawyd bod cyllid wedi'i sicrhau tan fis Mawrth 2024 a bod 25% o'r pecyn ariannu wedi'i sicrhau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mewn ymgais i sicrhau cyllid ychwanegol, roedd y Swyddogion yn gweithio'n agos gyda Swyddog Grantiau'r Awdurdod, a hefyd ei bod yn fwriad ganddynt gysylltu â'r Awdurdod Lleol a'r Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion i ofyn am eu cefnogaeth.

Roedd y Swyddogion yn cydnabod bod rhai ysgolion yn wynebu mwy o heriau nag eraill o ran cael mynediad i'r Parc Cenedlaethol, ac yn yr achosion hynny, bod y Swyddogion wedi canolbwyntio ar gyfoethogi tiroedd yr ysgol neu ardal yng nghyffiniau'r ysgol at ddibenion dysgu yn yr awyr agored. Ychwanegodd y Swyddog bod Tîm Addysg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gynorthwyo ysgolion gael profiad o'r awyr agored a'r Parc Cenedlaethol.

Dywedodd Aelod bod 55% o'r ysgolion yn Sir Benfro wedi cymryd rhan yn y cynllun drwy PODS, a gofynnodd ai'r nod oedd cynnwys mwy o ysgolion yn y dyfodol. Eglurodd y Swyddog bod y ffigur o 55% yn cyfeirio at yr ysgolion oedd wedi cymryd rhan yn y flwyddyn hyd yn hyn, ond byddai cyfanswm yr ysgolion sy'n rhan o PODS yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Ychwanegwyd bod Swyddogion yn anelu at ymgysylltu â chymaint o ysgolion â phosibl.

Nodwyd.

8. Rheoli Diogelwch Gwirfoddolwyr

Croesawodd y Cadeirydd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant, Libby Taylor, a'r Swyddog Datblygu Gwirfoddoli, Rebecca Evans, a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y prosesau a'r gweithdrefnau oedd ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr sy'n gweithio i'r Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion gweithgareddau'r gwirfoddolwyr, rhwymedigaethau'r Awdurdod i'r gwirfoddolwyr, manylion y prosesau gwirfoddoli, a chrynodeb o'r digwyddiadau yn ddiweddar a ddaeth i sylw'r Awdurdod. Yn dilyn pryder a fynegwyd gan yr Aelodau, rhoddodd y Swyddog fanylion pellach am ddigwyddiad RIDDOR oedd yn ymwneud â gwirfoddolwr, a rhoddodd sicrwydd iddynt bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau i'r gwirfoddolwr hwnnw ar y diwrnod dan sylw a bod amgylchiadau esgusodol wedi golygu bod yr achos hwn yn achos unigryw. Yn dilyn cwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod gan yr Awdurdod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus llawn oedd yn cynnwys yr holl wirfoddolwyr a gweithredoedd gwirfoddolwyr dan oruchwyliaeth.



At ddibenion bod yn gynhwysol, gofynnodd Aelod faint o wirfoddolwyr yr Awdurdod oedd ag anabledd. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd pob unigolyn yn dewis datgelu'r wybodaeth ar eu ffurflenni cofrestru, ond i'r rhai oedd angen cymorth ychwanegol, roedd cyfleoedd ar gael i wirfoddoli gyda'r timau Llwybrau a Gwreiddiau at Adferiad gan fod ganddynt wirfoddolwyr ychwanegol allai gynnig y cymorth angenrheidiol. Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd bod canran y gwirfoddolwyr oedd ag anabledd wedi cynyddu gan fod yr Awdurdod wedi recriwtio nifer o fentoriaid ac arweinwyr gwirfoddol ac felly wedi gallu rhoi'r cymorth ychwanegol oedd ei angen. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod, wrth geisio ymgysylltu â mwy o unigolion ag anabledd, wedi gweithio gyda sefydliadau megis 'Gwerthfawrogi Annibyniaeth', i hyfforddi nifer o'u cleientiaid i fod yn Arweinwyr Cerdded Gwirfoddol. I gydnabod y nifer cynyddol o wirfoddolwyr yr Awdurdod oedd ag anghenion ychwanegol, eglurodd y Swyddog bod hyfforddiant gwirfoddolwyr wedi'i addasu i amlygu hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod 2,847 o ddiwrnodau gwirfoddoli wedi'u cofnodi yn y flwyddyn ariannol gyfredol, ac y byddai'r cynnydd yn y patrwm hwn yn dibynnu ar gapasiti'r staff i oruchwylio gwirfoddolwyr. Cadarnhaodd y swyddogion mai ansawdd y profiadau gwirfoddoli oedd eu blaenoriaeth yn hytrach na'r nifer.

Nodwyd.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:42 a 11:55]

9. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Gorffennaf 2023

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23 ac yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Gorffennaf 2023. Roedd yn cynnwys ystadegau Chwarter 1 ar gyfer rhai mesurau ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn coch neu oren neu lle roedd cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ers yr adroddiad blaenorol.

Adroddodd y Swyddog ar y meysydd a'r themâu allweddol oedd yn cynnwys Cynlluniau Cyflawni, Cadwraeth, yr Hinsawdd, Cyswllt, Cymunedau, Perfformiad Cynllunio a'r Meysydd o Newid Corfforaethol. Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith bod y gwaith prosiect LIDAR wedi'i gwblhau ac nad oedd bellach yn y categori coch, ac yn ogystal, byddai'r camau categori oren o dan Cyswllt yn cael eu gweithredu cyn hir gan fod y Swyddog lechyd a Lles newydd sy'n gyfrifol am y materion hyn bellach yn ei swydd. Ychwanegwyd bod un gŵyn wedi ei gwneud i Gomisiynydd y Gymraeg nad oedd Coast to Coast yn gyhoeddiad dwyieithog, a gan fod y gŵyn wedi'i chadarnhau, byddai'r cyhoeddiadau yn y dyfodol yn gwbl ddwyieithog.



Gofynnodd Aelod beth fyddai'r goblygiadau ariannol o gael Coast to Coast dwyieithog, ac ymatebodd y Prif Weithredwr bod hynny yn ansicr ar hyn o bryd. Fodd bynnag oherwydd maint y cyhoeddiad, byddai'r newid yn golygu llai o le i gynnwys erthyglau a hysbysebion. Nodwyd y byddai hynny yn effeithio ar faint o incwm a gynhyrchir gan y cyhoeddiad.

Dywedwyd bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi derbyn cwyn yn erbyn yr Awdurdod ynghylch torri'r rheolau diogelu data ond ni chafodd y gŵyn hon ei chadarnhau. Yn sgîl hynny, gofynnodd Aelod pa Hyfforddiant Diogelu Data yr oedd angen i'r Staff ei gwblhau. Cadarnhaodd y Swyddog bod rhaglen o hyfforddiant diogelu data wedi'i threfnu i'r staff ei chwblhau a bod 98% o'r staff yr oedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r hyfforddiant wedi gwneud hynny (roedd y 2% oedd yn weddill yn aelodau newydd o'r staff). Ychwanegwyd, ar gyfer staff nad oedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r hyfforddiant diogelu data llawn oherwydd natur eu gwaith, bod hyfforddiant arall wedi'i ddatblygu gan Swyddog Diogelu Data yr Awdurdod iddynt ei gwblhau. Cadarnhaodd y Swyddog, mewn ymateb i'r honiad o dorri'r rheolau data a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, bod yr Hysbysiad Preifatrwydd - Cynllunio yn cael ei ddiweddarau i gryfhau safle'r Awdurdod ymhellach, a bod Grŵp Rheoli Cofnodion wedi'i sefydlu i adolygu'r holl ddogfennau mewnol i gryfhau dulliau'r Awdurdod o reoli cofnodion.

O ran perfformiad Cynllunio, dywedwyd bod canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol a'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i benderfynu pob cais cynllunio, â sgôr coch yn y statws coch melyn gwyrdd oherwydd yr ôl-groniad o achosion a achoswyd gan covid a'r cyfnod pan oedd y tîm yn brin o staff. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod, eglurodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu bod cynllun gweithredu yn ei le i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau, a bod dau aelod newydd o staff wedi'u recriwtio i gynorthwyo'r tîm yn hyn o beth. Serch hynny rhagwelwyd y byddai'r ystadegau yn debygol o waethygu yn y chwarter nesaf a bod disgwyl i'r patrwm gynyddu erbyn Gwanwyn 2024. Ychwanegwyd bod y strwythur staff a'r prosesau o fewn yr adran hefyd yn cael eu hadolygu i wella effeithlonrwydd, a thrwy hynny yn gymorth i'r tîm gyrraedd eu targedau.

Nodwyd.

10. Ymateb Aml-Asiantaeth i'r Ffliw Adar

Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth, James Parkin, a roddodd gyflwyniad ynghylch yr ymateb aml-asiantaeth i'r effaith ddinistriol yr oedd ffliw adar yn ei chael ar adar y môr. Roedd y cyflwyniad yn rhoi cefndir y clefyd, manylion yr ymateb aml-asiantaeth



gan gynnwys camau gweithredu allweddol i leihau'r effaith, a manylion yr effaith a welwyd ar adar y môr.

Nodwyd.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 06 Rhagfyr 2023 heb eu diwygio.

